

## **Bwletin Awdurdod S4C - Gorffennaf 2004**

### **CYFARFOD AGORED – TREGARON**

Fe gynhaliodd yr Awdurdod Gyfarfod Agored ar nos Iau, 22 Gorffennaf 2004, yng Nghanolfan Geltaidd Rhiannon, Tregaron. Bu 45 aelod o'r cyhoedd yn bresennol. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elan Closs Stephens, Cadeirydd S4C, a bu'r Prif Weithredwr, Huw Jones, a'r Cynhyrchydd Rhaglenni Plant, Angharad Garlick, hefyd yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd:

#### **Chwaraeon**

Mynegodd aelod o'r gynulleidfa ddymuniad i gael mwy o sylw i'r campau llai yn y Gymraeg – bowls, beicio, rhedeg traws gwlad, athletau, tenis, ac roedd angen rhaglen ar bêl-droed Cymru fel *Gôl*. Tra'n hoff o rygbi roedd yna ormod ohono. Esboniodd Huw Jones fod S4C yn awyddus i ennill hawliau ar gyfer chwaraeon eraill lle'r oedd y rheiny ar gael. Er hynny, roedd rygbi yn esiampl lle'r oedd S4C yn gallu ehangu ei chynulleidfa. Roedd pêl-droed hefyd yn gallu gwneud hyn ac roedd S4C yn anelu at ddarlledu mwy o bel-droed y flwyddyn nesaf. Roedd y campau llai er hynny yn fwy anodd i wneud addewid yn eu cylch. Roedd yna obaith i gael mwy o raliog ac roedd trafodaethau yn mynd yn eu blaen ar rai meysydd eraill yn y byd chwaraeon. Er hynny, roedd y Sianel yn ymwybodol bod gwylwyr yn disgwyl i'r ddarpariaeth chwaraeon fod yn gynhyrfus ac o safon uchel. Byddai S4C yn ceisio mynd ar ôl hawliau chwaraeon o'r fath pan fyddant ar gael.

#### **Safon Iaith**

Dywedwyd bod rhaid i S4C fod yn wylidwrus dros ben ynghylch safon iaith, yn enwedig pan fyddai plant yn debygol o wrando. Teimlwyd bod yna rai geiriau yn cael eu dweud na ddylasent eu dweud ar deledu o gwbl a roedd hyn wedi gwaethgu yn y blynyddoedd diwethaf. Gobeithiwyd na fyddai hyn yn dirywio ymhellach ac na fyddai rhaglenni Cymraeg yn dilyn yr un trywydd â'r rhai Saesneg.

#### **Addysg**

Cyfeiriwyd at y ffaith bod S4C wedi sôn taw amcan teledu oedd i gynnig adloniant. Gofynnwyd a oedd S4C hefyd yn cydnabod y dylai fod yna elfen o addysg mewn darlledu. Ymatebodd Huw Jones drwy ddweud bod yna dair elfen draddodiadol i ddarlledu a theledu sef gwybodaeth, addysg ac adloniant. Aeth ymlaen i ddweud ei fod na phwrpas addysgiadol uchel i raglenni megis rhaglenni dogfen, nid unig ar gyfer plant ond ar gyfer pawb. Er hynny, roedd hi'n bwysig i gydnabod taw'r hyn oedd yn cael ei ddisgwyl gan y mwyafrif o bobl oedd ei bod yn cael eu diddanu. Ond yn sicr, roedd addysgu yn rhan o'r amcan.

Aeth Elan Closs Stephens ymlaen i sôn bod Ofcom, corff newydd oedd yn rheoleiddio'r byd darlledu yn rhoi pwyslais ar y gair 'dinasyddiaeth', a'r cyfrifoldeb tuag at ein gwneud ni gyd yn bobl mwy addysgiedig ynglyn â'n cymdeithas. Roedd hwn yn nod mawr iawn ganddynt ar gyfer darlledu cyhoeddus. Roedd S4C yn meddwl bod hyn yn rhan allweddol o'i gwasanaeth, sef y gallu i roi gwybodaeth am wleidyddiaeth Cymru, am faterion cyfoes ar *Byd ar Bedwar* a *Taro Naw*, ag yn y blaen. Ond i ategu'r hyn eisoes wedi'i ddweud, roedd rhaid hefyd gwneud hyn mewn ffordd oedd yn denu pobl i wyllo yn y lle cyntaf.

Dywedodd Huw Jones hefyd fod yna enghraifft ddiddorol ym maes dysgwyr, lle'r oedd S4C wedi bod yn trafod be ddylai ei chyfraniad fod ym maes dysgu'r Gymraeg. Roedd S4C o'r farn mai nid darparu rhaglenni penodol i ddysgu'r Gymraeg oedd ei phrif swyddogaeth, ond yn hytrach gwneud yn siwr fod y rhaglenni roedd y Sianel yn eu darlledu yn hygyrch i ddysgwyr drwy gyfrwng darparu geirfa a ffyrdd o alluogi dysgwyr i'w mwynhau nhw ac felly barhau a'u haddysg. Ond amcan y rhaglen yn y lle cyntaf fyddai diddanu.

Soniwyd hefyd am y trafodaethau oedd wedi'u cynnal gydag ACCAC o ran penderfynu pa raglenni sydd eisiau rhoi ar dâp neu ar DVD, pa ffilmiau er enghraifft, oedd fwyaf gwerthfawr, a pha adnoddau ychwanegol y gellid eu rhoi gyda'r DVDs o'r math yna. Os byddai athrawon felly yn gwneud yn siwr bod eu barn yn cael ei glywed o fewn y system addysg, fe fyddai S4C yn ceisio sicrhau fod pethau'n digwydd na fyddai ddim yn digwydd fel arall.

## **Llenyddiaeth**

Mynegwyd siom fod cyn lleied o sylw yn cael ei rhoi i drafod agweddau ar lenyddiaeth. Roedd disgwyl bod S4C a'r radio yn gwneud eu rhan i hybu darllenwyr i'r Gymraeg. Oedd yna felly unrhyw gynlluniau ar y gweill i ddarparu neu gwella darpariaeth? Atebodd Huw Jones fod S4C yn glir bod y celfyddydau fel y cyfryw yn mynd i gael sylw parchus iawn ar S4C, efallai yn groes i'r duedd ar sianelau eraill. Roedd y *Sioe Gelf* yn rhedeg am gyfran o'r flwyddyn, a rhagwelwyd y byddai yna fwy o gynnyrch o driniaeth y celfyddydau'n mynd i ddigwydd, a bod y driniaeth yna'n mynd i fod yn fwy swmpus. Er hynny, rhagwelwyd y byddai llenyddiaeth yn rhan o driniaeth o'r celfyddydau, yn hytrach na phwnc i'w drin yn unigol. Roedd sylw wedi cael ei rhoi, er enghraifft, i Lyfr y Flwyddyn yn ddiweddar; a roedd yna sylw yn cael ei rhoi i farddoniaeth ac i lyfrau yn achlysurol. Roedd llenyddiaeth yn rhan o'r her o roi sylw parchus i'r celfyddydau. Ychwanegodd Elan Closs Stephens fod S4C, wrth gwrs, yn gwneud chyfraniad at ysgrifennu creadigol yn gyffredinol. Un o'r llwyddiannau mawr yn ddiweddar oedd bod S4C wedi cyd-ariannu Bardd y Plant. Roedd Myrddin ap Dafydd, y Bardd cyntaf wedi dod â chyfrol arbennig iawn allan o'r gwaith yna ac wedi mynd o gwmpas yr ysgolion. Hefyd, roedd S4C wedi bod yn helpu gyda chyrsgiau Ty Newydd.

## Isdeitlo

Soniodd aelod o'r gynulleidfa fod is-deitlau yn denu pobl di-Gymraeg a dysgwyr yng Nghymru, ac yn cyflwyno testunau o safbwynt y diwylliant Cymreig. Roedd rhaglenni teithio, er enghraifft, yn wahanol iawn ar S4C i'r hyn ar raglenni Saesneg a gwelwyd bod y pontio hyn yn beth pwysig iawn i S4C ei wneud. Gofynnwyd a oedd gan y Sianel gynlluniau i fynd ati yn fwriadol i wneud rhywbeth fel hyn, sef darparu rhaglenni gyda gogwydd o'r diwylliant Cymreig cynhennid ynddynt.

Soniodd Huw Jones fod S4C yn gobeithio bod ei gwasanaeth yn un gwahanol, unigryw, lle'r oedd y mwyafrif o raglenni â gogwydd gwahanol, gyda chynnwys nad oedd ar gael ar sianelau eraill. O ran isdeitlo, cytunodd Huw Jones fod hwn wedi bod yn arf pwysig iawn i S4C dros y blynyddoedd i ehangu apêl y Sianel, i wneud hi'n bosib i bobl nad oeddynt yn siarad Cymraeg i wyllo ac i fwynhau. Un o'r cwestiynau mawr i'r Sianel oedd a oedd hi'n iawn i roi isdeitlau yn agored ar y sgrin, megis *Pobol y Cwm* prynhawn dydd Sul. Tyb S4C oedd pe bai yn gwneud hynny ar bob rhaglen ni fyddai lawer o Gymry Cymraeg yn hapus â hynny gan deimlo ei fod yn torri ar draws eu mwynhad.

Felly, yr ateb oedd gofyn i bobl oedd eisiau isdeitlau i fynd at fotwm 888. Yn anffodus, er bod hwn wedi bod mewn bodolaeth ers blynyddoedd, roedd nifer fawr o bobl yn dal ddim yn sylweddoli bod y gwasanaeth ar gael. Roedd digidol yn gwneud y peth yn fwy cymhleth, achos fod *Sky* â system ychydig bach yn wahanol.

Cydnabuodd aelod o'r gynulleidfa y pwynt ynglyn ag is-deitlau agored yn gallu amharu ar wyllo'r Cymry Cymraeg ond roedd hefyd yn bwysig bod y di-Gymraeg yn cael cyfle. Roedd yn gwybod bod bobl yr oedd yn gweithio â nhw oedd yn ddi-Gymraeg yn mwynhau rhaglen S4C trwy'r isdeitlau.

Ychwanegodd berson arall bod ei chwaer yn fyddar, a thra nad oedd yn deall Cymraeg roedd hi'n gwyllo ambell i raglen ar S4C am fod yna isdeitlau roedd hi'n medru darllen ac yna ddim yn gorfod troi at y teulu i ofyn beth oedd yn mynd ymlaen. Roedd darllen gwefusau ar y teledu yn anodd iawn, ac roedd hi felly'n ddiolchgar iawn am y gwasanaeth hwn.

## Rhaglenni i Blant

Yna trodd y noson i roi sylw penodol i raglenni *Planed Plant* a *Phlaned Plant Bach*. Rhoddodd Angharad Garlick flas o waith ddyddiol yr adran raglenni plant ac amlinelliad o'r hyn yr oedd S4C yn anelu ato sef cynnig gwasanaeth adloniadol o'r safon uchaf posibl i blant meithrin a phlant hyn.

Yna soniwyd yn arbennig am Sali Mali. Fis Mawrth y llynedd, lawnsiwyd cynllun arloesol i greu pentref go iawn yng nghefn gwlad Ceredigion, ar gyfer llunio cyfres deledu i blant sydd wedi'i hysbrydoli gan gymeriadau llyfrau a chyfresi *Sali Mali*, ag yn seiliedig ar greadigaethau Mary Vaughan Jones. Roedd hi'n fwriad darlledu'r gyfres feithrin *Pentre Bach*, a gynhyrchir gan gwmni Sianco, ar S4C ddechrau mis Medi eleni. Roedd hi'n fwriad i'r pentref deledu a leolir ym Mhlaenpennal, gael ei ddefnyddio ar gyfer canolfan i ymwelwyr pan nad oedd yna ffilmio.

Yna fe wnaeth Siân Teifi, cynhyrchydd y gyfres, rannu rhywfaint o'r broses ffilmio oedd wedi digwydd o gwmpas Tregaron yn ogystal ag yn y 'Pentre Bach' ei hun. Esboniwyd bod *Pentre Bach*, yn fuddsoddiad o 52 o raglenni dros gyfnod o ddwy flynedd a diolchwyd i bobl Tregaron am y gefnogaeth yr oeddynt wedi ei roi i'r cwmni wrth iddynt ffilmio yn yr ardal. Yna rhoddwyd 'preview' egsgliwsif i'r rheiny'n bresennol o'r bennod gyntaf yn y gyfres ar ei hyd.

Ar ôl y dangosiad, fe wnaeth Adrian Savill a oedd, gyda Ifana Savill yn gyfrifol, am gynllunio ac adeiladu'r Pentre, esbonio'r gwaith wedi'i gyflawni ar safle hen fferm teulu Ifana. Teimlwyd mai un o'r atyniadau mwyaf fyddai ty Sali Mali, oedd wedi ei adeiladu i'r dimensiynau oedd yn y llyfr ac yn barod pan yr oedd plant yn dod i'r pentref, roeddynt i gyd yn rhedeg at ddrws y ffrynt a eisiau cael eu llun wedi'i ei dynnu yno. Tra dangosodd ddarluniau o'r gwaith adeiladu wrth iddo fynd yn ei flaen, ni wnaeth ddangos darluniau o'r Pentref yn ei ffurf orffenedig, gan yr oedd yn awyddus bod pawb yn dod i Pentre Bach i ymweld â'r lle eu hunain.

Ar y pwynt yma daethpwyd â'r noson i ben, ac fe wnaeth Elan Closs Stephens ddiolch yn fawr iawn i Siân Teifi ac Adrian Savill am eu cyfraniad arbennig a'u parodwydd i gyfrannu i'r noson.

## **CYFARFOD BUSNES - 23 GORFFENNAF 2004 - ABERAERON**

### **Yr Ysgrifennydd i'r Awdurdod**

Nodwyd taw hwn fyddai'r cyfarfod olaf o'r Awdurdod i John Howells, yr Ysgrifennydd i'r Awdurdod, fynychu cyn iddo ymadael ag S4C i ymuno â'r Cynulliad fel y Pennaeth Addysg Uwch. Yn arbennig, mynegodd y Cadeirydd ei diolchiadau iddo am y gefnogaeth ac arweiniad doeth yr oedd wedi cynnig iddi dros y pedair blynedd diwethaf. Dymunwyd yn dda iawn iddo yn ei swydd newydd.

### **Cyhoeddiad Adolygiad Roger Laughton**

Tynnwyd sylw i'r ffaith bod adroddiad Roger Laughton wedi'i gyhoeddi y diwrnod cynt. Trafododd yr Awdurdod sut y dylid symud pethau ymlaen ar y materion yr oedd yr adroddiad yn eu codi.

### **Adroddiad Clywch**

Nododd yr Aelodau y bennod o adroddiad Clywch ar *Pam fi Duw*, sef yr elfen yr oedd S4C yn gysylltiedig â hi yn y gwrandawriad. Rhoddwyd sylw hefyd i nodiadau o gyfarfod a gynhaliwyd gan swyddogion S4C i ystyried goblygiadau argymhellion yr adroddiad. Wrth nodi'r frawddeg oedd yn dweud nad oedd y Comisiynydd Plant wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth bod camdrin wedi digwydd yn ystod cynhyrchiad *Pam fi Duw*, cytunwyd y dylai swyddogion S4C adrodd ymhellach i'r Awdurdod ar ôl yr haf ar fanylion polisi diwygiedig ar ddiogelu plant oedd yn cael ei baratoi yn sgil argymhellion y Comisiynydd Plant.

## **Cynllun Corfforaethol 2004-06: Adroddiad Monitro**

Ystyriwyd adroddiad oedd yn gosod allan y cynnydd yn erbyn y targedau ar gyfer 2004 wedi'u gosod yn y cynllun corfforaethol. Wrth nodi bod y mwyafrif llethol o'r targedau yn cael eu cwrdd, cytunwyd y byddai angen ystyried natur y nodau a thargedau i'w gosod ar gyfer y flwyddyn nesaf yn sgil trafodaethau strategol yr Awdurdod dros y flwyddyn ddiwethaf.

### **Nawdd**

Ystyriwyd y ceisiadau oedd wedi'u derbyn, a chytunwyd y dylid rhoi nawdd i'r cyrff canlynol:

- Gwyl Ffilm Caerdydd
- Gwyl Ffilm a Theledu Geltaidd
- Bafta
- Prifysgol Caerdydd

O ran cais y Bevan Foundation, cytunwyd y dylid hysbysu'r Sefydliad y byddai gan S4C ddiddordeb mewn cyd-ariannu gwaith ar ryw brosiect penodol o fudd a diddordeb i S4C

### **Cydymffurfiaeth**

Ystyriwyd adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth yn deillio o'i gyfarfod ar 9 Gorffennaf. Nodwyd nad oedd unrhyw achos o bryder i'w ddwyn i sylw'r Awdurdod. Aethpwyd ymlaen i ystyried yr adroddiad ar ddarlledu cynadleddau gwleidyddol y gwahanol bleidiau gwanwyn a hydref 2003.

### **Materion Er Gwybodaeth**

Nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 9 Gorffennaf 2004.
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol